# Cenn@d

IONAWR 28 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 257


## Cyflwyniad i Sul Cyfiawnder Hiliol, 8 Chwefror 2026

**Eto eleni mae Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) wedi paratoi trefn gwasanaeth Cymraeg ar gyfer cynnal Sul i godi ymwybyddiaeth o'r angen am gyfiawnder hiliol yn y gwledydd hyn. Mae modd lawrlwytho'r adnoddau hyn o wefan: Racial Justice Sunday - 8 February 2026 - CTBI**

**Cyflwyniad**

Yn yr adnoddau hyn rydym yn archwilio beth mae caru ein cymydog yn ei olygu mewn gwirionedd. Byddwn yn ystyried y straeon cyfredol am elyniaeth, ofn, amheuaeth a chasineb at yr 'arall', yn enwedig ceiswyr lloches, ffoaduriaid, ac unrhyw un nad yw'n 'ddigon' Prydeinig neu Wyddelig. Trafodwn sut mae'r Beibl yn cynnwys canllawiau ar gyfer byd lle mae pawb yn perthyn, a lle mae pawb yn cael eu caru, eu gwerthfawrogi a'u derbyn am yr hyn ydynt, ac nid sut maen nhw'n edrych neu beth sydd ganddynt i'w gynnig. Dyma fyd lle ceir ein hunaniaeth yn y pen draw yng Nghrist, fel brodyr a chwiorydd o un 'hil', yr hil ddynol.

Rwy'n credu bod y neges hon 'ar gyfer y math hwn o amser'. Mae'n un sy'n siarad drwy'r baneri, y protestiadau a'r sarhad, gan gyfleu neges o undod a gobaith. Yn union fel mae'r gorchymyn mwyaf yn sôn am garu Duw a charu ein gilydd, mae marwolaeth aberthol Iesu ar y groes yn cynnig i ni oll y gobaith o fod yn unedig â Duw ac â'n gilydd.

Gadewch inni ddefnyddio Sul Cyfiawnder Hiliol (a Suliau eraill) i sefyll gyda'n gilydd mewn cariad, gan wrthod y geiriau, y gweithredoedd ac unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i ddysgeidiaeth Crist, a chofleidio'r egwyddorion Beiblaidd hynny sy'n meithrin undod, cydlyniad ac ymgysylltiad.

Rwy'n credu y dylid rhoi (a chadw) rhai pethau yn 'bin sbwriel hanes' wedi'i farcio: 'peidiwch ag agor'. Eto i gyd, rydym ni nawr yn profi agweddau, ymddygiad ac iaith sydd wedi'u hatgyfodi o gyfnodau fel y 1970au. Prin fod diwrnod yn mynd heibio heb i ryw wleidydd, sylwebydd cyfryngau cymdeithasol neu ymgyrchydd ddefnyddio iaith hiliol ac ymfflamychol i ennyn gelyniaeth tuag at geiswyr lloches, ffoaduriaid, mewnfudwyr a phobl Ddu a Brown.

Ar ben hynny, yn debyg i'r 1970au eto, mae rhai sydd bellach yn honni bod yn rhaid i chi fod yn Wyn er mwyn bod yn 'wirioneddol' Brydeinig neu Wyddelig. Ystyrir y rhai nad ydynt yn perthyn i'r categori hwn yn 'fewnfudwyr' neu'n 'ymfudwyr', p'un a ydynt wedi'u geni yn yr ynysoedd hyn neu wedi byw yma ers degawdau. Yn gysylltiedig â'r syniadau hynny mae'r cysylltiad annymunol a di-sail rhwng 'mewnfudwyr' a throseddu, sy'n awgrymu bod mewnfudwyr yn fwy tueddol o gyflawni troseddau, yn enwedig troseddau o natur dreisgar. Un agwedd allweddol ar y protestiadau asgell dde eithafol, gwrth-noddfa, yw cadw 'menywod a phlant yn ddiogel' rhag ceiswyr lloches gwrywaidd ysglyfaethus.

Yn eironig ddigon, yn ystod y 1970au cafwyd hefyd y gwrth-naratif bod mewnfudo yn ffenomen oedd yn cyfoethogi cymdeithas. Rhoddodd i'r wlad fwy o asedau diwylliannol, cymdeithasol a chrefyddol, amrywiaeth a bri. Heddiw, y naratif parhaus, camarweiniol yw fod mewnfudo (o Dde'r Byd) yn arwain at raniadau cymdeithasol a thensiynau ethnig. Eto i gyd, mae'r Beibl yn dweud wrthym fod ffordd well, un rhagorach fyth, sy'n seiliedig ar gariad a thrugaredd (1 Corinthiaid 13).

Pan ofynnwyd i Iesu gan athro'r gyfraith, "P'run yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?", atebodd yntau, "Y cyntaf yw, 'Gwrando,




O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain." (Marc 12:28–31)

O ganlyniad, mae Iesu yn galw ar ei ddilynwyr, nid i 'oddef' neu hyd yn oed i 'dderbyn' eu cymdogion, ond i'w caru, waeth sut maen nhw'n edrych neu beth maen nhw'n ei gredu. Nid yw hyn yn hawdd, ond mae'n ofyniad sy'n cael ei fynnu gan bawb sy'n dilyn Gwaredwr a roddodd ei fywyd o gariad dros bawb. Yn fwy na hynny, er ein bod yn aml yn clywed pwy sy'n perthyn i wlad neu deyrnas, neu pwy ddylai gael ei eithrio ohoni, fel Cristnogion, yr unig 'deyrnas' y dylem fod yn canolbwyntio arni mewn gwirionedd yw Teyrnas Dduw (Mathew 6:33). Mae hon yn deyrnas sydd wedi'i hadeiladu ar gariad, cyfiawnder, tosturi, trugaredd, gwirionedd, undod a gobaith.

*Richard Reddie*
*Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant CTBI*


Llyfr Grawys yn canolbwyntio ar ganfod gobaith yn ein bywydau **Tudalen 2**

Gwahoddiad i ŵyl Gristnogol Llanw, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, 6–10 Ebrill 2026 **Tudalen 5**

Waldo ar daith – cyflwyniad gan gwmni drama Mewn Cymeriad **Tudalen 8**

# Llyfr Grawys yn canolbwyntio ar ganfod gobaith yn ein bywydau

'Canfod gobaith ar ein taith' yw thema cyfrol newydd ddeniadol gan Trystan Owain Hughes, sydd hefyd wedi ei dewis gan Archesgob Cherry Vann fel ei llyfr Grawys ar gyfer 2026.

Yn y gyfrol mae Trystan yn myfyrio ar ei brofiad ei hun o ddioddefaint a sut y daliodd i obeithio drwy daith hir o 140 milltir yn ogystal â 'thaith' arall wrth iddo ddioddef anaf difrifol i'w gefn. I Trystan, mae teithiau'n rhannu rhai elfennau craidd penodol. Wrth gydnabod yr elfennau hyn yn ein bywydau, mewn profiadau fel galar, ffydd, gwaith, addysg neu salwch, cawn ddealltwriaeth ddyfnach ohonom ein hunain wrth inni ddarganfod golau Duw yn torri drwodd yn y mannau lleiaf annisgwyl.

Mae'r gyfrol, a gyhoeddir yn Saesneg ac yn Gymraeg, yn cynnwys canllaw astudio cryno wedi'i gynllunio i ysgogi myfyrio dyfnach ac i arwain pobl drwy'r Grawys. Tymor y Grawys, sy'n dechrau eleni ar 18 Chwefror, yw'r cyfnod o chwe wythnos sy'n arwain at y Pasg ac sy'n draddodiadol yn amser o fyfyrio.

Eisoes derbyniodd y gyfrol ganmoliaeth gan nifer o ffigyrau amlwg yn y byd Cristnogol, gan gynnwys Rowan Williams (cyn-Archesgob Caergaint), Rob Parsons OBE, a'r Athro Dee Dyas (Cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Pererindod y Deyrnas Unedig).

Yr awdur, y Parchedig Ddr Trystan Owain Hughes, yw Cyfarwyddwr Datblygu Gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru, a'i waith yw cynghori esgobion Cymru ar faterion gweinidogaeth a ffydd. Mae hefyd yn Ganon Emeritws yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Yn y gyfrol, dywed Trystan mai ei nod yw ysbrydoli pobl i ddod o hyd i obaith yn eu bywydau yn y cyfnod cyn y Pasg:

> Yn *Trwy'r Anialwch: Pererindod, Dioddefaint a Gobaith* rwyf am ysbrydoli darllenwyr i ddod o hyd i obaith a llawenydd ym mhob rhan o'u bywydau – mewn eiliadau o dawelwch, mewn teithiau cerdded yng nghefn gwlad neu mewn parc lleol, mewn amser a dreulir gyda theulu neu ffrindiau, neu mewn gwaith neu hobïau.
>
> Yn y llyfr rwy'n archwilio dioddefaint a llawenydd annisgwyl fy nheithiau trawsnewidiol fy hun. Trwy hyn, fy ngobaith yw y gallai rhywbeth o'm stori atseinio gyda phobl eraill a'u hannog i barhau i gerdded eu llwybrau gyda ffydd, dewrder ac, yn anad dim, gobaith.
>
> Mae'n bryd i ni symud y Grawys i ffwrdd o fod yn amser i 'roi'r gorau' i bethau i fod yn amser i 'agor' y teithiau yn ein bywydau i heddwch, gobaith, llawenydd a thosturi Duw.

Wrth gymeradwyo'r llyfr fel ei Llyfr Grawys swyddogol, dywedodd Archesgob Cherry Vann:




> Gan blethu ei brofiad o gerdded llwybr hynafol y pererinion yn ei annwyl ogledd Cymru a'i brofiad o anaf difrifol, mae Trystan Owain Hughes yn disgrifio yn y llyfr hwn sut y gallwn ddysgu gweld Duw ar waith yn ein bywydau, hyd yn oed yn yr amseroedd tywyllaf. Trwy naratif byw a myfyrio gonest, wedi'i blethu â chyfeiriadau at farddoniaeth a nofelau yn ogystal â'r ysgrythur, mae'n ein tynnu i fyfyrio ar ein teithiau a'n pererindod ein hunain, gweledig ac anweledig. Gyda chwestiynau i'w hystyried ar ddiwedd pob pennod, mae hwn yn llyfr gwych a chyfoethog i unigolion a grwpiau astudio ymgysylltu ag ef ac rwy'n falch iawn o'i argymell i'w ddarllen yn ystod y Grawys.

Teitl y fersiwn Cymraeg yw *Trwy'r Anialwch: Pererindod, Dioddefaint a Gobaith*; ei bris yw £9.99, a gellir ei archebu ar-lein yma neu mewn unrhyw siop lyfrau Cymraeg da.

## Cyflwyno dwy fedal Gee yn Salem, Treganna, Caerdydd

Bore Sul, 18 Ionawr, roedd hi'n bleser o'r mwyaf bod yn bresennol yn Salem, Treganna, Caerdydd, ar achlysur cyflwyno medalau Gee i Dai a Gill James am eu ffyddlondeb i'r ysgol Sul. Roedd hwn yn gyfle i fynegi ein gwerthfawrogiad am ddegawdau o roi arweiniad ac o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Ar ôl iddo roi crynodeb o hanes y medalau, cyflwynodd Rheinallt Thomas y ddwy fedal ar ran y Cyngor Ysgolion Sul. Cawsom hefyd glywed englynion i'r ddau a gyfansoddwyd gan un o gyd-flaenoriad Dai, sef Dewi Rhisiart, i gofnodi'r achlysur.



Mor weithgar yn rhannu cariad – at Dduw
Ac at ddyn heb eithriad,
Mynnu hwyl a chael mwynhad;
Arwyr sy'n rhoi cyfeiriad.

Arweinwyr sy'n cyfrannu – o'u hafiaith
I'r ifanc gael dysgu
Am rasol gamau'r Iesu;
Rhoi llais a hyder i'r llu.

I nodi eich cyfraniadau – am roi
Mor hael eich bywydau
I'ch ffydd; dathlwn, a choffáu
Ein dyled â medalau.

Llongyfarchiadau i Dai a Gill James, gyda'n diolch.

*T. Evan Morgan*
*(Gweinidog Salem)*

# Plygain yn Ninbych



Mae mwy a mwy o ddiddordeb yn y traddodiad canu plygain yng Nghymru ar hyn o bryd. Eleni, mae'n debyg, bydd bron i 70 o wasanaethau'n cael eu cynnal drwy Gymru a'r byd – o Fôn I Felbourne!

Pam hynny, sgwn i? I lawer o Gymry sy'n mynychu capel neu eglwys, mae rhyw 'effaith Marmeit' i'r gwasanaeth plygain, am lawer o resymau! Ond mae'r pethau sy'n arbennig am wasanaeth plygain yn amlwg yn apelio at bobl heddiw mewn ffordd newydd. Nid cyngerdd na chystadleuaeth yw'r plygain, ond gwasanaeth lle gall unrhyw un ddod a chanu un o'r hen garolau. Mewn oes lle mae pobl yn chwilio am ystyr, ac am gyswllt efo rhywbeth real a dwfn, mae'r traddodiad yma'n cynnig rhywbeth unigryw.

Eleni cynhaliwyd gwasanaeth plygain am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer yn nhref Dinbych. Mae sawl un o'r carolwyr enwocaf yn dod o Ddyffryn Clwyd a'r cyffiniau, a lle gwell I gynnal y gwasanaeth na Chapel y Fron, dafliad carreg o gartref Twm o'r Nant? Daeth unigolion a phartïon o bell ac agos i gymryd rhan.

Ar ddechrau blwyddyn gythryblus, roedd hi'n fraint cael clywed y newyddion da am Iesu Grist yn cael ei gyhoeddi, a'r gwahoddiad i'r ddaear gyfan yn atseinio o amgylch yr adeilad:

> mae heddiw'n ddydd cymod a'r swper yn barod
> a'r bwrdd wedi'i osod, O brysiwn!
> Mae'r dwylo fu dan hoelion yn derbyn plant afradlon ...

Wrth droi am adre, roedd Llewyrch yr Arth i'w weld yn glir dros y bryniau.

*Andras Iago*

# Cyhoeddi Penodi Pedwar Llysgennad Nodedig

Mae'r Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill yn falch o gyhoeddi penodi pedwar unigolyn amlwg yn llysgenhadon i'w deulu o wasanaethau sy'n darparu cefnogaeth dosturiol, hirdymor i bobl yr effeithir arnynt gan gaethiwed, trawma a thrallod emosiynol.

Bydd y llysgenhadon yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwaith:

**Y Stafell Fyw** – canolfan adferiad gymunedol, heb derfyn amser, sy'n gweithredu dull cynhwysol o ymdrin â phob math o gaethiwed;
**Cynnal** – gwasanaeth cwnsela cyfrinachol i glerigwyr, gweinidogion yr efengyl, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd;
**Lle i Fyw** – Stafell Fyw rithiol, arloesol, sy'n cael ei datblygu ar y cyd â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, gyda'r nod o ddarparu cefnogaeth adferiad hygyrch ledled y byd, ym mhob iaith.

### Y Llysgenhadon

**Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens, DBE**
Daw'r Fonesig Elan â phrofiad helaeth o wasanaeth cyhoeddus ym meysydd y cyfryngau, diwylliant a llywodraethu. Hi yw Comisiynydd Etholiadol Cymru ar hyn o bryd, gyda chyfrifoldeb am oruchwylio etholiadau'r Senedd yn 2026, penodiad sy'n adlewyrchu ymddiriedaeth y cyhoedd a'i harweinyddiaeth ar y lefel uchaf.

Tan yn ddiweddar, hi oedd Dirprwy Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, ac fe'i hetholwyd yn Llywydd benywaidd cyntaf Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Bu hefyd yn gynrychiolydd y BBC dros Gymru ar Ymddiriedolaeth a Bwrdd y BBC o 2010, gan wasanaethu fel Cadeirydd Dros Dro BBC y Deyrnas Unedig yn 2023.

**Y Farwnes Finlay o Landaf**
Fel clinigydd blaenllaw ac Athro Gofal Lliniarol yn Ysbyty Felindre, daw'r Farwnes Finlay ag arbenigedd helaeth ym maes iechyd y cyhoedd a gofal tosturiol. Mae ei gwaith a'i llais dylanwadol ym maes llesiant a moeseg yn gryfder sylweddol i genhadaeth y Cyngor o gefnogi adferiad cyfannol.

**Meg Jones, MBE**
Mae Meg Jones, MBE, pencampwraig rygbi'r byd, wedi ysbrydoli cynulleidfaoedd eang drwy ei llwyddiannau mewn chwaraeon a'i hymrwymiad cyhoeddus i iechyd, gwydnwch a llesiant. Mae ei chysylltiad cryf â'r gymuned yn ei gwneud yn llysgennad pwerus dros wasanaethau adferiad.

**Lleuwen Steffan**
Fel cantores, cyfansoddwraig a llysgennad diwylliannol o fri, mae Lleuwen Steffan yn dod â chreadigrwydd, empathi a chysylltiad dwfn ag iaith a chymuned sy'n adlewyrchu gwerthoedd cynhwysol y Cyngor. Wedi'i lleoli yn Llydaw, mae ei safbwynt rhyngwladol yn atgyfnerthu uchelgais fyd-eang Lle i Fyw.

**Arwyddocâd y Penodiadau**
Bydd y noddwyr hyn yn chwarae rôl allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o gaethiwed ac adferiad, yn cefnogi gweithgarwch codi arian, a chryfhau hyder y cyhoedd yn llywodraethu a gweledigaeth y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Yn benodol, byddant yn gwneud y canlynol:

- hyrwyddo dealltwriaeth o adferiad fel proses gydol oes sy'n canolbwyntio ar urddas y person;
- cryfhau cysylltiadau â'r sectorau iechyd, y celfyddydau a bywyd dinesig yng Nghymru a thu hwnt;
- herio stigma drwy eiriolaeth dosturiol a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth i lesiant;
- atgyfnerthu ymddiriedaeth mewn safonau uchel o lywodraethu, tryloywder ac ymarfer moesegol.

Dywedodd y Parch. Denzil John, Cadeirydd y Cyngor: "Mae'n fraint fawr croesawu'r llysgenhadon hyn; mae eu cyflawniadau a'u huniondeb yn adlewyrchu'r gwerthoedd sydd wrth wraidd ein gwaith. Bydd eu cefnogaeth yn allweddol wrth i ni barhau i arloesi a chefnogi unigolion a theuluoedd ar bob cam o'u taith adferiad."

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**
Wynford Ellis Owen
Prif Weithredwr y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill ac Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol
E-bost: wynford@recovery-council.org
Ffôn: 07796 464045
Gwefan: www.recovery-council.org

# Agoriad 'Beulah Fach'



Ar 14 Rhagfyr, fe gynhaliwyd yr oedfa olaf yng Nghapel Beulah, Cwmtwrch, capel sydd wedi aros mor urddasol a chadarn yng nghanol y pentref ers bron i 200 mlynedd, a'i dystiolaeth dros Grist yr un mor gadarn.

Diwrnod trist oedd diwrnod cloi drws y capel am y tro olaf ar ôl yr oedfa. Ond nid dyna ddiwedd y stori, oherwydd llawenydd oedd i ddilyn, wrth i ni fel aelodau gamu dros yr heol i'r festri gynt, a fydd o hyn allan yn cael ei hadnabod fel 'Beulah Fach'.

Prynhawn Sadwrn, 3 Ionawr 2026, a'r eira ar lawr, cariwyd y Beibl i mewn i'r adeilad ar ei newydd wedd. Cariwyd y Beibl gan ein horganydd, Mr Mark Williams, a'i osod ar y ddarllenfa newydd – rhodd i'r capel oddi wrth Mark er cof am ei annwyl briod, Michelle.



Sefydlu yr achos fediddiedig yng
Nghapel Beulah Fach (Festri Gynt) ar
Ddydd Sadwrn Ionawr 3ydd am 1.30yp.

'Ewch i mewn i'w byrth ef a diolch, ac i'w gynteddau a
mawl, diolchwch iddo a bendithiwch ei enw'.

Salm 100 adnod 4

Cawsom oedfa fendigedig i sefydlu 'Beulah Fach' at waith y deyrnas. Agorwyd yr oedfa gan y Parchedig Judith Morris, Ysgrifenydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, wrth iddi rhoi gair o groeso i bob un oedd yn bresennol. Yr emyn agoriadol oedd 'Jubilate', cân o foliant i'r Arglwydd. Cawsom ddarlleniad gan y Parchedig Clive Williams, Craig-cefn-parc, a gweddi ddwys gan Mr Paul Bevan, Mission Hall, Cwmtwrch. Darllenwyd yr emynau gan y Parchedig Judith Morris, Mr Paul Bevan a Miss Ann Griffiths. Mrs Elsbeth Brough roddodd y diolchiadau ac ychydig o hanes y ddau adeilad.

Hyfryd oedd cael croesawu Mrs Arfonia Young a'i merch Llinos i'r oedfa, a diolch i'r Parchedig Judith Morris am eu cludo o Aberystwyth ar fore mor oer. Y diweddar Barchedig Dennis Young oedd ein gweinidog llawn amser diwethaf yn Beulah, a braint oedd cael cwmni Mrs Young a Llinos yn yr oedfa arbennig yma.

Y Parchedig Judith Morris gyflwynodd y neges bwrpasol, wrth iddi ein hatgoffa mai'r Arglwydd Iesu Grist yw pen-conglfaen a sylfaen yr Eglwys, a ninnau yw'r cerrig bywiol.

Trist yw nodi i Dr Christian Williams Undeb Bedyddwyr Cymru, a'r Parchedig Eirian Wyn fethu bod yn bresennol oherwydd afiechyd.

Cawsom amser i gymdeithasu dros luniaeth ysgafn ar ôl yr oedfa. Ein gweddi yw ar i'r Arglwydd ein cadw a'n cynnal i'r dyfodol.

Os oes yna unrhyw un yn darllen yr erthygl hon a garai ymuno â ni ar y Sul, mae'r oedfa am 4 o gloch y prynhawn, a bydd yna groeso twymgalon yn eich aros.

*Elsbeth Brough*

# Ordeinio blaenoriaid yng Ngheredigion a Gogledd Penfro

Yng nghyfarfod yr Henaduriaeth a gynhaliwyd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ddydd Iau, 22 Ionawr, cafwyd y fraint o ordeinio pedwar blaenor newydd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth, ac roedd yr ordeinio dan ofal y Parch. Carwyn Arthur, Llywydd Sasiwn y De.



Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Robin Huw Bowen, Capel y Morfa; Philip Lodwick, Shiloh, Llanbedr Pont Steffan; Hywel Lloyd, Capel y Morfa; Huw Chambers, Capel y Morfa; Dr Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth, a'r Parch. Carwyn Arthur, Llywydd Sasiwn y De

# Gwahoddiad i ŵyl Gristnogol Llanw, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, 6–10 Ebrill 2026




**Beth yw Llanw?**
Mae Gŵyl Llanw yn bodoli ers 2008, pan gasglodd criw bychan o tua 80 o bobl yn Llangrannog i 'Ddathlu'r Atgyfodiad' - nod sy'n parhau hyd heddi. Y bwriad gwreiddiol oedd creu gŵyl a fyddai'n uno Cristnogion o bob cefndir ac enwad i addoli'r Duw Byw ac eistedd o dan ei Air ef. Bu pwyslais ar waith plant ac ieuenctid o'r cychwyn cyntaf, ac ers 2008 mae'r ŵyl wedi teithio Cymru – o Geinewydd i Gricieth, o Ddinbych-y-pysgod i Gydweli. Ond ers rhai blynyddoedd bellach mae wedi dychwelyd i'w chartref cyntaf yn Llangrannog ac wedi tyfu i ddenu yn agos i 400 o bobl!

**Beth sy'n digwydd yn ystod y dydd?**
Mae gennym ddwy oedfa, bore a nos, sy'n gyfle arbennig i ymgynnull â Christnogion eraill, cymryd rhan mewn addoliad cyfoes a chlywed oddi wrth ein prif siaradwyr wrth iddyn nhw agor y Gair â ni. Eleni rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrth Rhys Llwyd, Gwilym Jeffs, Lois Franks, Gwynedd Jones, Steffan Morris, Deb Stammers, Anna Huws, Simeon Baker a Jonathan Thomas.

Mae darpariaeth lawn ar gyfer plant ac ieuenctid, gyda'r clybiau plant ar gael i bob plentyn dros 3 blwydd oed. Bydd cyfleusterau *crèche* i'r rheiny sy'n iau na hynny. Yn ogystal â hyn, mae Llanw yn darparu gweinidogaeth ar gyfer plant ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) a'u teuluoedd. Ein nod yw creu gŵyl gyfan gwbl gynhwysol a hygyrch.

Mae'r prynhawniau fel arfer yn cynnwys gwibgartio, sgio, merlota a phob math o weithgareddau, wrth i ni fanteisio ar gyfleusterau gwych Gwersyll yr Urdd. Uchafbwynt arall yw'r bwyd blasus: mae'n ŵyl breswyl lle mae tri phryd bwyd bob dydd yn rhan o'r pris. Gwyliau go iawn! Ydy, mae'n ddiwrnod llawn a phrysur, ond peth gwych am Llanw yw'r cyfle i dreulio amser gyda ffrindiau hen a newydd, cael cyfle i annog a chlywed gan Gristnogion eraill, rhannu beichiau, a mwynhau cymdeithas y saint.

**Pwy sy'n mynychu Llanw?**
Mae Llanw yn ŵyl gyfan gwbl gydenwadol gyda phwyslais ar Air Duw ac annog Cristnogion. Mae croeso mawr i bawb. Mae'n ŵyl gyfrwng Cymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn y prif oedfaon.

**Sut mae archebu lle?**
Mae gennym ni dudalen Ticket Tailor lle gallwch archebu tocynnau: https://buytickets.at/llanw/1921686

Yn ogystal, mae mwy o wybodaeth ar y wefan (www.llanw.org), ac ar ein tudalennau Facebook ac Instagram. Mae croeso hefyd i chi gysylltu â ni os oes cwestiynau gennych; gallwch wneud hynny drwy ebostio Elain: ymholiadau@llanw.org.

**Ystyried dod?**
Dwi'n eich annog i ddod i Llanw. Gallwn deimlo'n ynysig ac unig weithiau fel Cristnogion yng Nghymru. Efallai ein bod yn bell (mewn termau daearyddol) oddi wrth ein brodyr a'n chwiorydd yn y ffydd, a gyda'n bywydau prysur heddi mae trefnu i dreulio amser gyda'n gilydd yn gallu teimlo fel tasg amhosib! Mae gallu treulio wythnos yn addoli Duw, myfyrio ar ei Air, cyfarfod â Christnogion eraill, clywed straeon o'r hyn y mae Duw yn ei wneud yn ein gwlad, yn falm i'r enaid ac yn anogaeth werthfawr iawn. Ewch amdani eleni, dewch i Llanw!

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 14 – Ymson Naomi

Fel merch ifanc, fe gredwn y byddai llwybr bywyd yn hawdd, ac felly y bu am gyfnod. Cefais ŵr da a llonnwyd ein dyddiau gan ddau fab. Deffrown bob bore yn llawn gobaith a diolchgarwch.

Ond daeth newyn i'n gwlad fel storm annisgwyl. Penderfynodd Elimelech fod angen inni adael a theithio i Moab. Dilynais ef, wrth gwrs, fel gwraig ffyddlon, ond serch hynny roedd pob cam yn boenus. Ro'n i'n perthyn i fy mhobl, f'ardal, fy nghymdeithas, a'r peth olaf a ddymunwn oedd y rhwyg hwn yn ein teulu.

Ar ôl inni gyrraedd Moab, dechreuodd fy meibion gynefino, ac ymhen hir a hwyr roeddynt ill dau wedi priodi. Hoffais y ddwy wraig newydd, Orpa a Ruth, o'r dechrau. Roeddem yn ailblannu ein gwreiddiau fel teulu; roedd Duw yn gwenu arnom a breuddwydiwn y byddai pob yfory'n parhau'n braf. Ond byr fu'r cyfnod o freuddwydio, a daeth newid i'm rhan. Bu farw fy ngŵr annwyl. Cefais flas ar beth oedd chwerwder bod yn wraig weddw. Yna cipiwyd fy meibion oddi arnaf hefyd.

Cefais fy newid gan alar deublyg. Allwn i ddim credu mewn dim mwyach. Yr un pryd, clywais fod y newyn yn ôl gartref wedi dod i ben, ac addewais i mi fy hun y byddwn yn dychwelyd yno. Doedd dim i'm cadw yn y lle dieithr hwn, dim ond beddau oer ac atgofion hiraethus. Gwnes fy ngorau glas i berswadio Orpa a Ruth i aros, a pheidio dychwelyd gyda mi. Roedd y ddwy yn ifanc a phosibiliadau o'u blaen yn ogystal â'r gallu i ddechrau o'r newydd. Torrodd Orpa i lawr i grio wrth imi ffarwelio â nhw ac arhosodd yno. Mynnodd Ruth ddod gyda mi. Dewisodd alw fy mhobl i yn bobl iddi hi, a'm Duw i yn Dduw iddi hithau. Roedd ei ffyddlondeb yn ddisymud ac fel lamp yn nhywyllwch yfory.

Wedi imi ddychwelyd i Fethlehem, yn naturiol cefais f'adnabod a'm croesawu 'nôl, ond prin yr oeddwn yn f'adnabod fy hun. Roedd bywyd wedi fy newid a penderfynais y dylwn newid fy enw o Naomi, sef llawenydd, i Mara, sef chwerwder. Ro'n i'n bendant fy meddwl bod Duw wedi gwneud cam â mi.

Eto, roedd yn rhaid cario 'mlaen orau y gallwn. Aeth Ruth i weithio i'r caeau er mwyn inni'n dwy allu byw. Gwyliwn hi'n gadael ben bore ac yn cyrraedd adref bob nos wedi llwyr ymlâdd. Sylwais ar ei charedigrwydd a sylweddoli bod cyfeillgarwch yn beth mor werthfawr. Sylwodd rhywun arall ar y rhuddin yn ei chymeriad ac ar ei phrydferthwch, sef Boas. Roedd yn perthyn i fy ngŵr, ond roedd hawl ganddo, yn ôl cyfraith ein gwlad, i gyfeillachu â Ruth. Ceisiais ei harwain a gweddïais y byddai'n hapus.

Profodd Boas ei fod yn berson caredig a thyner, ac fe'n cymerodd ein dwy dan ei adain. Ganwyd mab i Boas a Ruth, sef Obed, ac wrth ei gofleidio yn fy mreichiau toddodd y chwerwder ynof. Cenais gân newydd a symud o'r trymder i lawenydd unwaith eto. Dysgais fod ffydd yn gallu tyfu o gael ei ddyfrhau gan ddagrau o bob math. Adfywiais wedi profi chwerthin y dechrau newydd a theimlwn yr ysgafnder yn fy nwydroed unwaith eto.

Wrth edrych yn ôl, gallaf weld bod ystyr i'r llwybr na fedrwn ei ddeall wrth ei droedio. Roedd Duw yn fy nghyfeirio, er na allwn weld hynny ar y pryd. Cefais fy siapio gan golled, ond cefais fy ngharío gan gariad. Oherwydd ymlyniad Ruth a gofal rhagluniaethol Duw, profais agosatrwydd yn fy nghynhesu o'r newydd.

Os gallwch ddysgu unrhyw beth oddi wrthyf, cofiwch fod modd i galon wag gael ei llenwi eto, a bod gras dwyfol yn ehangach nag unrhyw orwel pell a welwn ni.

**Holi**

- Sut mae gonestrwydd Naomi, yn ei galar a'i chwerwder, yn gymorth i ni ddeall rôl gonestrwydd emosiynol o fewn cyd-destun ein heglwysi lleol ni? A beth allwn ni ei ddysgu o'r modd y mae hi'n rhannu'n agored yn hytrach na chuddio'i hemosiynau?
- Sut mae arweiniad a doethineb Naomi yn dylanwadu ar ddyfodol Ruth? Allwn ni ddatblygu system fentora rhwng y cenedlaethau (o ran oedran) yn ein cylchoedd ni a thrwy hynny fod yn fodd i arwain ein hieuenctid (a *vice versa*, efallai!) mewn ffyrdd newydd?
- Dengys stori Naomi fod Duw yn gweithio drwy ffyddlondeb a chyfeillgarwch. Oes modd i'r rhinweddau hyn fod o gymorth inni fynegi ein ffydd i eraill drwy fywyd o gariad (Galatiaid 5:6)?

**Gweddi**

O Dduw, erfyniwn hyn:

Cyflyra ni i fywyd o ffyddlondeb tuag at ein hanwyliaid.
Cymell ni i arddel y rhinweddau gorau.
Cyfeiria ni i ddatblygu ein mynegiant o'th gariad.
Cynghora ni fel ein bod yn gwybod dy ddymuniad.

Cysegra ni er mwyn inni wneuthur wrth dy fodd. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 1 Chwefror, am 7:30yh – Yr Emyn: Hen a Newydd**
Bydd Lowri Morgan yn cloriannu emynau traddodiadol a chyfoes yng nghwmni'r cerddorion Meinir Richards a Christopher Davies. Mae ein treftadaeth o emyn-donau yn drysor. Ond ydyn ni mor barod i werthfawogi emynau cyfoes? Chwarter canrif ers cyhoeddi *Caneuon Ffydd*, tybed sut fydd ein canu mawl yn datblygu yn y ganrif sydd i ddod? Daw'r emynau o Gapel Heol Awst, Caerfyrddin, a chawn fwynhau perfformiad gan Gôr Seingar.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 1 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni
Anna Jane Evans

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 1 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Siân Howley, Casnewydd

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn dymuno penodi Ysgrifennydd Cyffredinol i wasanaethu fel Prif Weithredwr ac i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar draws yr Undeb, Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru a Chronfa Adeiladu Bedyddwyr Cymru mewn cyfnod trawsffurfiol yn ei hanes.

Rydym yn chwilio am arweinydd gyda gweledigaeth sydd, yn ddelfrydol, yn meddu ar sgiliau profedig mewn llywodraethiant, rheoli newid ac arweinyddiaeth ysbrydol. Elfen hanfodol o'r rôl yw cynnig arweiniad ac anogaeth i eglwysi a gweinidogion yr Undeb.

Mae'r swydd, yn ddelfrydol, ar gyfer gweinidog Bedyddiedig ordeiniedig a chydnabyddedig ac iddynt enw da, neu berson lleyg Bedyddiedig ac iddynt enw da gyda phrofiad o arweinyddiaeth ragorol mewn cyd-destun Cristnogol, elusennol neu gymunedol. Disgwylir cynefindra â gofynion niferus llywodraethiant elusennol, profiad o ddatblygiadau cyfredol mewn gweinidogaeth a chenhadaeth, ac adnabyddiaeth lwyr o'r cyd-destun Cristnogol yng Nghymru.

Mae'n Ofyniad Galwedigaethol, yn ôl amodau Deddf Cydraddoldeb 2010 Atodiad 9 Rhan 1 Paragraff 3, fod deiliad y swydd yn Gristion mewn gair a gweithred ac yn cytuno â Datganiad Egwyddor Undeb Bedyddwyr Cymru, yn unol â'r cyfrifoldeb i ddarparu arweinyddiaeth ysbrydol i gynrychioli a hyrwyddo gweledigaeth Gristnogol a gwerthoedd yr Undeb, ac i fodelu'r ddisgyblaeth Gristnogol ym mywyd yr Eglwysi a thîm y swyddfa.

Mae'r gallu i gysylltu a chyfathrebu yn effeithiol mewn cyd-destun dwyieithog yn hanfodol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 6 Chwefror 2026

Dyddiad cyfweld: 19 Chwefror 2026

Pe baech yn dymuno trafod y swydd yn gyfrinachol yn y lle cyntaf, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchedig Judith Morris, ar 07872 824165.

Mae ffurflen gais a phecyn gwybodaeth ar gael drwy gysylltu â swyddfa UBC ar 0345 222 1514 neu post@ubc.cymru.

## Yr Eglwys Fethodistaidd

# Swyddog Dysgu a Datblygu (iaith Gymraeg)

**Cyflog £41,810 y flwyddyn**

**Lleoliad: Taleithiau Wales Synod Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr / Gweithio o gartref**

*Swydd barhaol, 35 awr yr wythnos; dyddiad cau: 9yb ddydd Llun, 2 Chwefror 2025*

Mae'r rôl hon yn rhan o Rwydwaith Dysgu'r Tîm Cyfundebol, gan gefnogi, annog, ac arfogi'r eglwys i fyw 'Ein Galwad' trwy addoliad, cenhadaeth, efengylu a disgyblaeth Gristnogol. Mae'r Rhwydwaith Dysgu yn gweithio'n bennaf gydag arweinwyr lleyg ac ordeiniedig, gan eu helpu i alluogi eraill.

Mae'r swydd hon yn cyfrannu at fentrau dysgu a datblygu cyfundebol-gyfan, ac mae wedi'i chysylltu'n benodol â Thalaith Wales Synod Cymru, fel Swyddog Dysgu a Datblygu Cymraeg, a Thalaith newydd Gorllewin Canolbarth Lloegr (West Midlands) yn dilyn uno taleithiau presennol Birmingham a Wolverhampton & Shrewsbury ar 1 Medi 2025.

Mae Wales Synod Cymru yn dalaith ddwyieithog gydag 16 o gylchdeithiau sy'n cynnwys Cylchdaith Cymru, cylchdaith Gymraeg ei hiaith sy'n ymestyn dros Gymru gyfan. Ac mae Talaith Gorllewin Canolbarth Lloegr yn cynnwys 20 o gylchdeithiau ar draws Birmingham, Wolverhampton a'r Ardal Ddu, Swydd Gaerwrangon, Swydd Warwick, Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Swydd Stafford. Mae'r ddwy dalaith yn amrywiol o ran grwpiau poblogaeth ac yn gwasanaethu cymunedau mewn ardaloedd gwledig, trefi marchnad, maestrefi a chanol dinasoedd.

**Yr Ymgeisydd Delfrydol ar gyfer y Rôl Hon**
Nodweddion y person mwyaf addas ar gyfer y rôl Swyddog Dysgu a Datblygu hon:

Cristion angerddol ac ymrwymedig
- wedi ymrwymo'n ddwfn yn eu ffydd a'u cymell i helpu eglwysi i dyfu mewn disgyblaeth Gristnogol, addoliad, cenhadaeth ac efengylu
- yn aelod o eglwys gydnabyddedig gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI, neu sefydliad cyfatebol).
- wedi ymrwymo i werthoedd cynhwysol, cyfiawnder, efengylu, a thwf eglwysig.

**Addysgwr a hwylusydd medrus**

**Cyfathrebwr cryf ac adeiladwr perthynas**

**Arweinydd cydweithredol**

**Gweithiwr proffesiynol hyblyg a hunanysgogol**

**Ein diwylliant, gwerthoedd a manteision**

Diolch am ystyried ymuno â'n tîm cynhwysol a chroesawgar sy'n ymdrechu at ragoriaeth ac yn gwerthfawrogi lles gweithwyr.

Sylwer bod hon yn swydd sy'n cynnwys gwaith Cymraeg lle mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg i safon uchel yn hanfodol.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fyw o fewn y naill dalaith neu'r llall, neu'n agos atynt, a bydd disgwyl iddo/iddi deithio'n helaeth ar draws y ddwy dalaith a thu hwnt at ddibenion gwaith.

Os oes angen addasiadau rhesymol arnoch ar unrhyw gam o'r broses recriwtio, cysylltwch â hr@methodistchurch.org.uk

Sylwch nad oes angen i ymgeiswyr blaenorol wneud cais.

**Dyddiad cau: 02/02/26**

**Cyfweliadau i'w cynnal:**

**dydd Mawrth, 10 Chwefror 2026: sgwrs fer, dros y ffôn, a gynhelir yn Gymraeg rhwng 1 a 4yp – i'r rhai sydd â lefel ddigon uchel o Gymraeg;**

**dydd Iau, 19 Chwefror 2026: cynhelir cyfweliad llawn, yn Gymraeg a Saesneg, yn Amwythig.**

**Cynhelir gweddill y broses recriwtio yn Saesneg.**

**D.S.** Cadwn yr hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar os byddwn yn derbyn digon o geisiadau ar gyfer y rôl. Felly, os oes gennych ddiddordeb, cyflwynwch eich cais cyn gynted â phosibl.

# Waldo ar daith – cyflwyniad gan gwmni drama Mewn Cymeriad

## Waldo Williams (1904–1971)

Ystyrir Waldo Goronwy Williams yn ffigwr mytholegol. Nid oedd neb a'i hadwaenai yn ei gasáu. Byddai pawb a dreuliai amser yn ei gwmni yn ei anwylo ac yn trysori pob cyfarfyddiad. Roedd plant bychain bob amser yn hoff ohono pan ddeuai i'w dysgu.

Mynna rhai y perthynai iddo nodweddion sant. Yn sicr, roedd ganddo argyhoeddiadau dwfn a direidi difalais. Dywedodd rhywun ei bod wedi cymryd dwy fil o flynyddoedd o wareiddiad Cymraeg i greu dyn fel Waldo. Roedd wedi ei drwytho ei hun yn hanes ei genedl.

Ar un achlysur safodd fel ymgeisydd Plaid Cymru mewn etholiad seneddol. Er iddo golli ei ernes enillodd llu o edmygwyr. I lawer Waldo oedd bardd Cymraeg mwyaf yr ugeinfed ganrif. I eraill roedd yn heddychwr a ddigwyddai fod yn fardd. Edmygwyd ei safiad yn wynebu dau gyfnod yng ngharchar am wrthod talu treth incwm mewn protest yn erbyn gorfodaeth filwrol a rhyfela.

Pan oedd yn ganol oed ymunodd â'r Crynwyr. Carai'r distawrwydd a'r modd o gyrraedd y canol llonydd yn addoliad y Tŷ Cwrdd. Cyflwynodd ei unig gyfrol o farddoniaeth, *Dail Pren*, yn gyfrwng iachâd i'w genedl. Ni wyddom am yr un bardd arall a wnaeth y fath gymwynas â chenedl.

(o wefan: www.waldowilliams.com)




**Waldo: Bardd dewrder, bardd tynerwch**

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn mynd i fro'r Garreg Las yn 2026, mae'n addas talu teyrnged i waith a bywyd un o blant amlycaf yr ardal honno, sef y bardd a'r ymgyrchydd heddwch Waldo Williams. Yn y cyflwyniad hwn, cawn gip ar y cwlwm tyn rhwng profiadau ei fywyd, delfrydau ei athroniaeth a'i gerddi ac ystyried mor berthnasol yw ei eiriau ein dyddiau ni.

**Dramodydd: Mererid Hopwood**

**Actor: Ryland Teifi**

**Cyfarwyddydd: Janet Aethwy**

**Lleoliadau**

Ionawr 30 - Canolfan yr Egin, Caerfyrddin, am 7.30
Chwefror 3 - Clwb y Bont, Pontypridd, am 7.30
Chwefror 4 - Capel Mynydd Seion, Casnewydd, am 7.00
Chwefror 5 - Theatr y Gromlech, Crymych, am 7.30
Chwefror 6 - Neuadd yr Ysgol, Llanfihangel ar Arth, am 7.30
Chwefror 7 - Theatr Gwaun, Abergwaun, am 7.30
Chwefror 9 - Capel Berea Newydd, Bangor, am 7.30
Chwefror 11 - Theatr Seilo, Caernarfon, am 7.30
Chwefror 12 - Capel Pencaenewydd, Eifionydd, am 7.30
Chwefror 13 - Capel Brynhafod, Gors-goch, am 7.30
Chwefror 16 - Capel y Nant, Clydach, am 7.00
Chwefror 17 - Castell Aberteifi am 7.30
Chwefror 18 - Cubanas, y Barri, am 7.30
Chwefror 19 - Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, am 7.45
Chwefror 20 - Neuadd Llanofer, Caerdydd, am 2pm a 7.30pm
Chwefror 23 - Theatr Fach Llangefni am 7.30
Chwefror 25 - Theatr Twm o'r Nant, Dinbych, am 7.30
Chwefror 27 - Theatr Derek Williams, y Bala, am 7.30

**Tocynnau**
https://www.mewncymeriad.cymru/waldo

## Gair o gydymdeimlad

Roedd yn flin iawn gennym glywed am farwolaeth Mrs Margaret Williams brynhawn Gwener, 19 Rhagfyr. Bu Margaret yn eithriadol o ffyddlon i gapel Clapham Junction a chapel Lind Road, Sutton, ac i'r capeli Cymraeg i gyd yn Llundain ac yn ffrind annwyl i ni oll.

Rydym yn meddwl yn arbennig am ei phriod, y Parch. Anthony Williams, a'r teulu oll yn eu profedigaeth, gan ddiolch am fywyd, ffydd, ffyddlondeb a holl waith Margaret.

*Richard Brunt*
*Gofalaeth Llundain*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru